# Cofnodion Cyfarfod 3/7/2025

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Moira Mai, Ken Edwards, Clare Mackintosh, Eifion Roberts, Rhys Evans, Huw Symonds, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd) a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Jacqueline Allen a Sion McGuiness.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, y Cyng Dilys Evans, a diolchodd i'r Dirprwy Faer Moira Mai am lenwi'r bwlch yn y cyfarfod blaenorol.
2. **Buddiant:** Datganwyd buddiant gan y Cyng Ken Edwards yn eitem 7.2 (cais VAR Maes Tegid).
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 5/6/25.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd: Croesawyd o Sion Bryn Roberts o Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd i'r cyfarfod i drafod y ddarpariaeth o weithgareddau i bobl ifanc y dref. Cafwyd cyflwyniad ganddo oedd yn rhoi amlinelliad o waith ieuenctid o fewn Gwynedd, yn benodol ar gyfer yr oedrannau 11-16 a 16+. Eglurodd fod gweithiwr ieuenctid yn yr ardal (gyda'r amser i'w rannu rhwng ardal y Bala ac ardal Dolgellau), ond fod hefyd gyfle i greu Clwb Ieuenctid Cymunedol, a fyddai'n bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref. Nodwyd y byddai Cyngor Gwynedd yn cyflogi staff ac yn gweinyddu'r cynllun, ond y byddai angen cyfraniad ariannol gan y Cyngor Tref i wireddu'r bwriad. Cytunwyd fod angen casglu barn pobl ifanc y dref, ac i ddod i benderfyniad ar y mater yng nghyfarfod mis medi o'r Cyngor Tref fel bo'r trefniant yn medru dod yn weithredol erbyn mis Hydref / Tachwedd.

    ii. Natur Eryri – nodwyd na fu cynrychiolydd o'r cyngor yn y gynhadledd yma ym Mhlas Tan y Bwlch fis Mehefin.

    iii. Taflen lwfans Aelodau: Gofynnwyd i'r aelodau gwblhau'r daflen.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER)    /    /    ......................................(CLERC)

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng Dilwyn Morgan, a dywedodd fod trefnianat i'r Tim Tacluso Ardal Ni ddod i'r Bala fore Iau Gorffennaf 17eg, pryd y byddant yn rhoi blaenoriaeth i chwynnu rhannau o'r Stryd Fawr a phaentio colofnau'r hysbysfyrddau. Nodwyd hefyd fod mainc i'w gosod, gyda'r union leoliad i'w gadarnhau ar y diwrnod. Dywedodd hefyd ei fod am gysylltu hefo Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri i drafod y posibilrwydd i'r Cyngor Tref dderbyn cyfran o incwm parcio Llyn Tegid trwy gyfrwng ardoll.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor y Nadolig:** Adroddwyd na chafwyd ymateb hyd yma i'r cais am gostau darparu goleuadau Nadolig.
**Is bwyllgor Cyllid:** Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o'r Is Bwyllgor a gynhaliwyd ar Fehefin 16eg, pryd y gwnaed trefniadau i gwblhau yr archwiliad o gyfrifon y cyngor am 2024/2025.
**Is Bwyllgor Asedau:** Cytunwyd fod angen cael golwg ar fanylion tendr cynnal a chadw Tomen y Bala.
**Is bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Nodwyd fod achrediad i'w gael fel Tref Ddementia Gyfeillgar, ac y byddai modd sefydlu grŵp i wireddu hyn a allai gynnwys aelodau o'r cyhoedd. Nodwyd fod modd cael statws Tref Oed Gyfeillgar hefyd, hyn i'w drafod fis Medi, a chyfarfod agored o bosibl yng Nghanolfan Bro Tegid.
**Is bwyllgor Cynllun Creu Lle:** Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 19eg, pryd y cytunwyd i roi blaenoriaeth i gynlluniau i wella'r Stryd Fawr, hyn o bosibl i gynnwys raciau beics, basgedi blodau, cod QR i'r Tro Trefol a deunyddiau dehongli.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Un Llais Cymru:** Nodwyd fod cyfarfod o bwyllgor Ardal Meirionnydd ar Orffennaf 16eg.
**Cymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn:** Nid oedd cynrychiolwyr y Cyngor Tref yn bresennol i adrodd ar ddatblygiadau diweddar.
**Grŵp Busnesau'r Bala:** Derbyniwyd llythyr gan y grŵp oedd yn cynnwys cofnodion eu cyfarfod blynyddol, ac a oedd hefyd yn gofyn am gydweithrediad y Cyngor Tref i ddatblygu eu syniadau. Cytunwyd i gyfnewid cofnodion unwaith y byddant wedi eu cymeradwyo gan aelodau'r Cyngor Tref. Cytunodd y Cyng Rhys Evans i fod yn gynrychiolydd ychwanegol i'r Cyngor Tref ar y Grŵp Busnes.
**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni yn parhau i ddatblygu prosiectau Canolfan Bro Tegid, Ynni Cymunedol a Thrafnidiaeth Gymunedol, gyda'r cyfarfod nesaf o'r cwmni ar Orffennaf 14eg.

7. **Materion Cynllunio**: Derbyniwyd cais cynllunio gan Reilffordd Llyn Tegid i amrywio amod 10 ynghlwm i Ganiatâd Cynllunio dyddiedig 21/10/2024 i sicrhau bod gwaith gwella priffyrdd yn cael ei gwblhau cyn defnyddio'r caniatâd mewn unrhyw ffordd fuddiol. Cytunwyd i gefnogi'r cais.
   Derbyniwyd hefyd gais gan Gymdeithas Bel-droed Cymru i osod Seilwaith Dyfarnwr Cynorthwyol Fideo (VAR) ym Mes Tegid, Heol y Castell. Cytunwyd i gefnogi'r cais.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

8. **Materion Cyllid:**

  **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £13,597 yn y cyfri cyfredol, £27,055 yn y cyfri cadw a £623 yng Nghronfa'r Maer.

  **ii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, taliad cyflog y Clerc, a thaliad am waith cynnal a chadw Tomen y Bala.

  **iii.** Derbyniwyd diolchiadau am gyfraniad ariannol y cyngor gan Nightingale House.

  **iv.** Nodwyd fod adroddiad Cyngor Gwynedd fel archwilwyr mewnol y Cyngor Tref wedi ei dderbyn, a bod y Datganiad Blynyddol wedi cael ei gymeradwyo, yn barod i'w anfon i Archwilio Cymru. Trafodwyd y posibilrwydd o gael ail berson (aelod o Is bwyllgor Cyllid y cyngor) i gymeradwyo taliadau ar lein.

  **v.** Adroddwyd fod hawliad TAW y cyngor am 2024/2025 wedi cael ei gyflwyno.

  **vi.** Adroddwyd fod HSBC yn dileu eu ffioedd misol ar gyfrifon banc y cyngor.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn a gynhaliwyd ar Orffennaf 2il, pryd y cafwyd diweddariad ar wahanol brosiectau adfywio'r ardal, ac ar y gwahanol raglenni ariannu.

ii) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am Raglen Hyfforddiant i gynghorau, a gofynnwyd i'r clerc gylchredeg y wybodaeth i aelodau'r cyngor fel bo'r aelodau yn medru dewis o'r gwahanol sesiynau. Derbyniwyd gwybodaeth hefyd am gyfansoddiad Un Llais Cymru, a llythyr yn pryderu am ddiffyg presenoldeb gan rai cynghorau yn y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Ardal.

iii) Triathlon y Bala: Nodwyd fod y Triathlon i'w chynnal ar Fedi 7fed, ac fe gytunwyd i gysylltu hefo'r trefnwyr i gefnogi'r digwyddiad.

iv) Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am gronfa Arloesi i Dyfu, cronfa i ariannu prosiectau i atal tor cyfraith. Cytunwyd i anfon y wybodaeth i Grŵp Busnesau'r Bala.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:**

i) Tynnwyd sylw'r cyngor fod ymddygiad gwrthgymdeithasol ar Domen y Bala yn achlysurol. Yn dilyn trafodaeth fe gytunwyd i drefnu fod giât y domen ar glo bob nos (7pm – 8am) ac i osod posteri ar y giât i dynnu sylw at hyn. Gwnaed trefniadau hefyd i gasglu sbwriel yn achlysurol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 4 Medi 2025.